

Arbenigwyr trwy brofiad

**Sut ddylen ni roi terfyn ar ddigartrefedd
– gan bobl sydd wedi cael profiad ohono.**

Tai a
chymorth

Lles a
gwasanaethau
cyfiawnder

Iechyd a
gwasanaethau
cymdeithasol

Addysg

Stigma
a newid
agwedddau

Am Cymorth Cymru

Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid, i greu newid. Credwn y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith ar fywydau pobl. Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau.



cymorthcymru.org.uk



[CymorthCymru](https://twitter.com/CymorthCymru)



enquiries@cymorthcymru.org.uk

Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2019, sefydlwyd y Grŵp Gweithredu Digartrefedd Cymru gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Cyloch gorchwyl y grŵp yw darparu argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru ar y gweithredoedd a'r atebion sydd eu hangen i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Ym mis Hydref, cyhoeddodd y grŵp ei adroddiad cyntaf ar roi terfyn ar gysgu allan; canlyniad hyn oedd gweithredu cydlynus gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i leihau achosion o ddigartrefedd yn ystod gaeaf 2019/20.

Bydd yr ail adroddiad yn fwy eang o lawer, gan amlinellu sylwadau'r grŵp ar y polisiâu, y dulliau a'r cynlluniau sydd eu hangen er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd yn cryfhau'r angen am i hyn fod yn flaenoriaeth traws-lywodraethol, yn hytrach na dim ond yn fater tai, a galw am weithredu gan ystod o wasanaethau cyhoeddus a meysydd polisi.

Yn ystod tymor yr hydref 2019, cynhaliodd y Grŵp Gweithredu Digartrefedd arolwg ymhlith pobl a chanddynt brofiad o ddigartrefedd, gan ofyn am eu sylwadau ar atebion i'r broblem. Rhoddodd hyn fframwaith glir i'r grŵp i'w galluogi i ddechrau datblygu eu hadroddiad a chyfres o argymhellion. Fodd bynnag, roedd y grŵp yn awyddus i sicrhau bod pobl a chanddynt brofiad o fod yn ddigartref yn cael cyfle arall i roi siâp ar y drafft terfynol a'r argymhellion.

Rydym ni yn Cymorth yn rhoi gwerth uchel ar wrando ar, a gweithredu ar, farn pobl a chanddynt brofiad o ddigartrefedd. Fel aelod o'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd, fe gynigiodd Cymorth drefnu digwyddiadau ymgysylltu ym mis Chwefror 2020 lle gallai pobl drafod eu profiadau a rhannu eu sylwadau ar sut y gallwn roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad, ym Mae Colwyn a Chaerdydd, a mynychwyd hwy gan bron i 80 o bobl. Daethant â llawer iawn o arbenigedd i'r trafodaethau hyn, yn seiliedig ar eu profiadau hwy eu hunain ac ar eu penderfyniad i roi newid ar waith.

Mae'r ddogfen hon wedi ei strwythuro o amgylch y pynciau a drafodwyd yn y digwyddiadau yma, gyda chrynodeb o'r pwyntiau allweddol ochr yn ochr â dyfyniadau uniongyrchol gan y bobl oedd yn bresennol. Mae'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd wedi rhoi ystyriaeth i'r ddogfen, ac arweiniodd hynny at wneud gwelliannau ac ychwanegu at eu hadroddiad hwy a'u hargymhellion ar gyfer y Gweinidog. Mae'r ddogfen hon hefyd wedi cael ei hanfon at y Gweinidog er mwyn iddi allu darllen sylwadau pobl drosti'i hun.

Hoffem ddiolch o galon i bawb a fynychodd y digwyddiadau ac a gyfrannodd eu syniadau a'u profiadau i'r trafodaethau hyn. Rwy'n addo y byddwn yn lledaenu'r ddogfen hon, ac yn rhannu eich sylwadau chi â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar hyd a lled Cymru.

Katie Dalton
Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru

Dyw'r hyn a gyflenwir ddim ond cyn bwysiced â'r sawl sy'n ei gyflenwil
COFIWCH EIN CYNNWYS NI

HAWLIAU DYNOL
- mae gan bawb hawl i gartref, dŵr glân a bwyd.

Mae ar bawb angen cyfle arall, neu dipyn o lwc yn eu bywydau.

Tai a chymorth

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau o dai a chymorth, yn ogystal â'u barn ar beth ddylid ei wneud i rwystro a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r negeseuon allweddol isod, ac ar y dudalen gyferbyn ceir detholiad o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Negeseuon allweddol

- ▶ **Cynyddu'r mynediad i dai fforddiadwy:** Roedd llawer o bobl yn siarad am yr angen i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, gyda rhai'n sôn am yr angen i adeiladu rhagor o dai, ac eraill yn trafod gwneud defnydd mwy effeithiol o'r stoc tai sy'n bodoli eisoes. Soniodd nifer fawr o bobl yn benodol am dai cymdeithasol, gan nodi anawsterau ynghylch fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat, ac roedd llawer o bobl yn dymuno gweld cynnydd yn y ddarpariaeth o lety â chymorth. Yn ogystal, soniodd nifer fawr o bobl am yr angen am ragor o dai ag un ystafell wely.
- ▶ **Gwella mynediad i'r Sector Rhentu Preifat (PRS):** Fforddiadwyedd oedd y brif broblem, gyda llawer yn nodi'r Lwfans Tai Lleol a'r raddfa rhannu llety i bobl ifanc fel ffactorau allweddol. Yn ogystal, galwai rhai am i landlordiaid preifat osod eu heiddo i ragor o bobl ifanc, pobl sy'n derbyn nawdd cymdeithasol, a phobl a chanddynt anifeiliaid anwes. Roeddynt hefyd yn gofyn am help gyda chostau symud i mewn i eiddo, gan gynnwys bondiau a chostau sefydlu cartref. Roedd galw hefyd am fwy o sicrwydd deiliadaeth ac am gynlluniau i annog landlordiaid i osod eu eiddo i bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd, ac arnynt angen mwy o gefnogaeth.
- ▶ **Lleihau rhwystrau i bobl ifanc:** Roedd llawer o bobl ifanc yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad, a buont yn cyfeirio at yr anawsterau penodol maent yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i lety. Roedd fforddiadwyedd yn broblem allweddol, yn enwedig yn y sector rhentu preifat, lle roedd eu hawl i nawdd cymdeithasol yn cyfyngu'n fawr ar eu dewisiadau. Trafodwyd hefyd yr heriau o ddarparu geirda, a chael gwarantydd pan oeddynt wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd. Tynnodd y bobl ifanc sylw hefyd at bwysigrwydd cymorth, yn enwedig yng nghyd-destun sgiliau bywyd megis coginio a rheoli arian.
- ▶ **Tai yn Gyntaf a llety â chymorth:** Cafwyd sawl galwad i gynyddu'r ddarpariaeth o dai â chymorth a/neu lleihau'r cyfnod i aros amdanynt. Fodd bynnag, rodd pobl hefyd yn galw am ragor o lety uned sengl â chymorth yn hytrach na thai â chymorth yn rhannu gydag eraill. Roedd eraill yn awyddus i aros mewn tai â chymorth am fwy na dwy flynedd. Cafwyd galwadau hefyd ar i Tai yn Gyntaf gael ei gyflwyno ledled Cymru. Un broblem a godwyd gan nifer o bobl oedd pa mor anodd oedd gweithio tra'n byw mewn tai â chymorth, gan fod yr effaith ar eu hawl i nawdd cymdeithasol yn ei gwneud yn anodd i bobl weld manteision bod mewn gwaith.
- ▶ **Darparu cymorth person-ganolog:** Soniodd llawer o bobl am bwysigrwydd cymorth person-ganolog. Roedd nifer yn galw am ragor o weithwyr cymorth, rhagor o allgymorth a rhagor o gymorth gyda'r symudiad o dai â chymorth. Soniodd ychydig o bobl am yr angen i weithwyr iechyd proffesiynol, yn cynnwys meddygon teulu, fod yn rhan o dimau allgymorth. Bu llawer o bobl yn trafod y budd o gael cefnogaeth cymheiriaid, gan ei alw'n rymusol, a gwneud cais am ddarparu mwy ohono.
- ▶ **Rhoi dewis i bobl:** Bu pobl yn siarad am eu dymuniad i gael dewis ble maen nhw'n byw, gyda rhai'n cyfeirio at yr angen i gadw i ffwrdd oddi wrth bobl neu ddylanwadau a oedd wedi cael effaith negyddol arnynt yn y gorffennol. Roedd eraill yn dymuno byw yn agos at eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymorth.
- ▶ **Gwneud defnydd eto o eiddo gwag:** Tynnodd nifer o bobl sylw at y nifer o adeiladau gwag neu anghyfannedd sydd yng Nghymru, gan bwysu ar yr awdurdodau i wneud mwy i'w gwneud yn addas i'w defnyddio, yn arbennig felly i roi cartref i bobl sy'n ddigartref.

Rhenti preifat yn rhy uchel i bobl ar fudd-daliadau.

Mwy o lety hunan-gynhwysol a fforddiadwy i rai dan 25 oed.

Mwy o lochesi i'r digartref / llety argyfwng addas.

Mwy o eiddo un stafell wely.

Tai yn Gyntaf i gael ei gyflwyno ledled Cymru.

Dylid defnyddio eiddo gwag ar gyfer pobl ddigartref.

Landlordiaid preifat i dderbyn pobl ar fudd-daliadau.

Pobl ifanc yn methu cael geiradau na gwarantydd ar gyfer llety symud ymlaen.

Dylid gwneud mwy i roi stop ar landlordiaid twyllodrus a deddfau troi allan.

Rhoi dewis i bobl ble maen nhw eisiau byw.

Gorfod ailadrodd gwybodaeth DRO AR ÔL TRO wrth bobl wahanol ac ar wahanol ffurflenni.

Angen cymell landlordiaid preifat i osod eiddo i bobl ddigartref sydd angen mwy o gymorth.

Gwaith cynnal a chadw, peintio ac addurno, i lenwi eiddo gwag

Angen mwy o help gyda thenantiaeth allgymorth.

Dim digon o lety i'r digartref, a rhestr aros rhy hir ar gyfer rhy ychydig o lefydd.

Mae'r pontio o dai â chymorth yn rhy anodd.

Help cyn dod yn ddigartref, h.y. iechyd meddwl, dyledion, cymorth i atal digartrefedd.

Mwy o help i sefydlu cartref newydd.

Tai mwy fforddiadwy ar gyfer pobl ar incwm isel / pobl dosbarth gweithiol.

Cymorth wedi'i bersonoleiddio yn dilyn symud ymlaen o hosteli.

Gweithiwr cymorth sy'n gyson – adeiladu ymddiriedaeth, a pheidio rhoi lan ar rywan.

Mwy o arian i weithwyr cymorth maen nhw'n haeddu mwy nag maen nhw'n ei gael.

Tai llai o faint, felly llai o ddrama / ffraeo, mwy cartrefol, haws i wneud ffrindiau, distawach, gofod preifat.

Gweithwyr cymorth sy'n ofalgar, a gwybod eu bod nhw wir yn awyddus i'ch helpu chi ac i fod yno.

Lles/nawdd cymdeithasol

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau o'r system les, a beth ddylid ei wneud i rwystro a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r negeseuon allweddol isod, ac ar y dudalen gyferbyn ceir detholiad o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Negeseuon allweddol

- ▶ **Diwygio neu ddiddymu Credyd Cynhwysol:** Nid oedd yn syndod bod cyfradd fawr o'r sylwadau yn gysylltiedig â'r Credyd Cynhwysol. Roedd rhai'n gofyn am iddo gael ei ddiddymu, ac eraill am iddo gael ei newid. Galwai llawer o bobl am am gynyddu CC, neu fudd-dal tai, i adlewyrchu rhenti lleol. Roeddynt yn dweud eu bod yn cael trafferth i fforddio rhent gyda'u dyraniad cyfredol, gyda rhai'n sôn yn benodol am gyfraddau Lwfans Tai Lleol. Roedd pobl yn feirniadol o'r drefn sancsiynau, a galwai eraill am ddiddymu'r dreth ystafell wely. Galwai rhai pobl am i elfen tai y CC gael ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid er mwyn atal digartrefedd, a gofynnodd eraill am i'r CC gael ei dalu'n amlach – bob pythefnos neu'n wythnosol. Roedd llawer yn beirniadu'r cyfnod aros o 5 wythnos cyn derbyn y taliad CC cyntaf, gan ddweud bod hyn yn achosi lawer o bryder ac yn cynyddu dyledion, gyda goblygiadau hir-dymor i bobl. Awgrymodd eraill na ddylai pobl orfod talu'r blaendaliadau'n ôl.
- ▶ **Gwella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a chymorth:** Soniodd llawer o bobl am yr heriau ynghlwm â gwneud cais am nawdd cymdeithasol, gan ddweud ei fod yn frawychus ac nad oeddynt yn gwybod ble i ddechrau. Galwyd am ragor o ymwybyddiaeth o hawliau pobl, rhagor o wybodaeth ysgrifenedig mwy hygyrch, a chymorth wrth lywio drwy'r broses. Gofynnwyd am well mynediad at y rhyngwyd, cymorth i alluogi pobl a chanddynt broblemau iechyd i fynychu asesiadau, a help i dalu am ddogfennau adnabod a gwaith papur. Roeddynt am iddi fod yn haws i bobl sy'n byw ar y stryd gael mynediad at eu hawliau lles ac am fwy o wybodaeth am arian argyfwng. Awgrymodd nifer o bobl hefyd y dylai cyngor arbenigol ar dai fod ar gael mewn canolfannau gwaith.
- ▶ **Gwella lles yn achos pobl ifanc:** Roedd llawer o bobl ifanc yn tynnu sylw at y diffyg cydraddoldeb a wynebir gan bobl ifanc, gan wneud y sylw bod eu hawl i nawdd cymdeithasol yn is na hawl pobl hŷn, er bod eu costau yr un fath. Amlygwyd effaith hyn ar eu gallu i fforddio rhent yn y sector rhentu preifat, gyda'r gyfradd am lety wedi'i rannu yn cyfyngu llawer iawn ar y tai sydd ar gael iddyn nhw.
- ▶ **Lleihau'r rhwystrau i addysg neu waith:** Soniodd pobl am eu hawydd i fynd i fyd addysg neu fyd gwaith, ond roedd hyn yn eithriadol o anodd oherwydd yr effath ar eu dyraniad nawdd cymdeithasol. Roedd hyn yn broblem benodol i bobl mewn tai â chymorth gan fod y rhenti uchel yn golygu nad oedd unrhyw 'anogaeth i weithio'. Roedd pobl am weld llai o fwllch rhwng eu nawdd cymdeithasol a'u rhent, er mwyn eu galluogi i fynd i fyd gwaith tra ar yr un pryd yn cael y diogelwch a'r sicrwydd o fyw mewn llety â chymorth. Dywedodd rhai pobl hefyd fod cael mynediad i fyd addysg i rai dros 21 oed yn anodd iawn, gan eu bod yn colli eu hawl i rai elfennau o nawdd cymdeithasol.
- ▶ **Mwy o dosturi a dealltwriaeth gan staff yr Adran Gwaith a Phensiynau:** Awgrymodd nifer o bobl y dylid rhoi rhagor o hyfforddiant i staff yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn cynnwys y rhai sy'n ateb y ffôn ac yn cynnal asesiadau. Yn benodol, gofynnodd pobl am fwy o dosturi a dealltwriaeth ar ran y staff, gan awgrymu hyfforddiant ar brofiadau andwyol mewn plentyndod, a bod yn fwy trawma-wybodus neu seicolegol-wybodus. Siaradodd pobl am bwysigrwydd hyn mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch sancsiynau neu ddiddymu budd-daliadau, sy'n gallu arwain at ddigartrefedd.
- ▶ **Grantiau ar gyfer pethau penodol:** Galwodd rhai pobl am fudd-daliadau penodol i dalu am ddillad a theithio pan fo pobl yn derbyn nawdd cymdeithasol ac yn cael trafferth gyda'u sefyllfa ariannol. Cafwyd sylwadau hefyd ar gost cyfleustodau, gan awgrymu y dylai pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol allu cael eu dŵr am ddim, gan amlygu statws nid-er-elw Dŵr Cymru.

Rhoi diwedd ar aros am 5 wythnos am Gredyd Cynhwysol.

Hyfforddiant mewn empathi ar gyfer staff cynghorau a chanolfannau gwaith.

Ei gwneud yn haws i bobl sydd ar y stryd gael cymorth.

Cynyddu'r budd-dal tai i bobl dan 35 oed fel bod dim angen iddyn nhw dalu swm ychwanegol.

Mwy o staff ar gael gan ei bod yn anodd cael gafael arny'n nhw.

Rhoi cymorth a hyfforddiant i aseswyr sy'n cynnal asesiadau ESA & PIP i stopio sancsiynau diangen a dileu budd-daliadau.

- Grantiau dillad
- Gwarantau teithio
- Tocyn bws

Roi gwell esboniad o Gredyd Cynhwysol i bobl fregus.

Mae CC yn eich rhoi mewn dyled cyn derbyn unrhyw fudd. Aros am 5 wythnos = dyled. Mae bod mewn dyled yn gwneud pobl yn fwy pryderus.

Gwneud adnewyddu'n haws i rai sy'n hawlio DLA / PIP.

Dwi wedi bod angen arian argyfwng sawl gwaith, ond do'n i ddim yn gwybod ble i'w gael.

Y rhent i'w dalu'n uniongyrchol i'r landlord i osgoi troi allan.

Cynyddu'r budd-dal tai ar gyfer pobl fregus a phobl ifanc.

Dylai pobl ar fudd-dal gael dŵr am ddim nid-er-elw!

Ddylech chi ddim gorfod talu'ch blaendal yn ôl ar y Credyd Cynhwysol.

Os ar Gredyd Cynhwysol, gall dirwyon llys gael eu tynnu mas ar 40%, a gall fod yn amhosib byw ar y gweddill.

Llythrau oddi wrth y DWP / HMRC ac ati sy'n anodd i'r defnyddiwr eu deall.

Mae'r grŵp oedrau iau yn derbyn llai ar hyn o bryd sut mae disgwyl iddyn nhw gynnal eu hunain?

Yn awyddus i weithio, ond mae Credyd Cynhwysol yn gwneud hynny'n rhy anodd.

Budd-daliadau i'w talu nid yn unig bob mis. Dewis hefyd i dalu bob wythnos neu bob pythefnos.

Mae angen i fudd-dal tai adlewyrchu lefelau'r rhent yn yr ardal leol.

Mae gwneud cais am fudd-daliadau yn codi ofn ar bobl. Heb gymorth, dyw pobl ddim yn gwybod ble i ddechrau.

Dyw chwilio am waith tra'n byw mewn tŷ â chymorth ddim gwerth y drafferth gan fod y rhent yn rhy uchel.

Dylai fod yn bosib cael cyngor arbenigol ar dai mewn canolfannau gwaith.

Gwasanaethau iechyd

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau o wasanaethau iechyd, a beth ddylid ei wneud i rwystro a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r negeseuon allweddol isod, ac ar y dudalen gyferbyn ceir detholiad o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Negeseuon allweddol

- ▶ **Iechyd meddwl:** Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud ag iechyd meddwl, gyda ffocws arbennig ar fynediad at wasanaethau. Cafwyd sylwadau ar yr angen i leihau'r amser aros am apwyntiadau a chyfeiriadau at wasanaethau, yn ogystal â galwadau am fwy o grwpiau cymorth iechyd meddwl yn y gymuned. Galwodd pobl hefyd am ddarparu mwy o gefnogaeth iechyd meddwl mewn cynlluniau llety â chymorth. Awgrymodd rhai y dylid gostwng y trothwy i gael mynediad at wasanaethau, er mwyn galluogi rhagor o bobl i wneud hynny heb weld eu hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach. Galwodd eraill am fwy o gydymdeimlad o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl, tra ar yr un pryd yn cydnabod eu bod yn fyr o staff a bod arnynt angen rhagor o adnoddau.
- ▶ **Problemau gyda defnyddio sylweddau:** Galwodd nifer o bobl am fwy o hyfforddiant ar gyfer meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl. Gwnaed pwynt penodol am ddeall y defnydd o sylweddau fel dull o ymdopi, a sicrhau nad oedd hyn yn cael ei ddefnyddio i rwystro mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Bu pobl yn eiriol dros fynediad cyflymach i driniaeth, ac am fwy o ffocws ar atal problemau defnyddio sylweddau. Galwodd nifer o bobl am fwy o gyllid a chymorth i ddulliau lleihau niwed, megis cyfleuster cyfnewid nodwyddau a llefydd diogel i chwistrellu, yn ogystal â galw am fwy o hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar sut i roi'r cyffur naloxone.
- ▶ **Mynediad at wasanaethau iechyd:** Galwodd pobl am symleiddio'r dull o gofrestru gyda meddyg teulu, gan nodi'r angen am gerdyn adnabyddiaeth (ID), lluniau a chyfeiriad parhaol fel rhwystrau roeddynt wedi eu hwynebu. Soniodd rhai pobl am y modd y gall yr awyrgylch mewn lleoliadau iechyd achosi pryder i bobl, gan awgrymu y gellid rhoi mwy o feddwl i wneud y profiad hwn yn un sy'n rhoi pobl dan lai o straen. Galwyd hefyd am fwy o hyblygrwydd a dealltwriaeth o'u hamgylchiadau, gan ddweud na ddylai meddygon a deintyddion eu dileu oddi ar eu rhestrau os byddant yn colli apwyntiadau. Tynnodd rhai pobl sylw at enghreifftiau positif o feddygon a deintyddion sy'n gweithio gyda darparwyr llety â chymorth i sicrhau mynediad at wasanaethau iechyd. Dywedodd eraill y dylid ystyried pobl sy'n ddigartref fel blaenoriaeth i dderbyn gofal iechyd. Soniodd pobl hefyd am bwysigrwydd gwasanaethau cymorth wrth eu helpu i ymgysylltu â gwasanaethau iechyd.
- ▶ **Tosturi, cysondeb a gwranddo ar bobl:** Gofynnodd pobl am i feddygon teulu fod yn wrandawyr gweithredol, gan nodi nad yw pobl yn awyddus i gadw apwyntiadau os nad ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwranddo arnynt – a bod rhai pobl yn poeni nad oes neb yn eu clywed os nad ydynt yn gyfathrebwyr da. Roedd pobl yn awyddus i gael eu trin â pharch, ac yn 'gyfartal', a gweld y stigma 'nhw a ni' yn cael ei leihau. Doedden nhw ddim yn awyddus i ganolbwyntio ar brofiadau a materion negyddol, ac roeddent yn gwerthfawrogi cael yr un meddyg teulu'n barhaus rhag iddynt orfod ailadrodd eu hanes a'u problemau yn y gorffennol wrth nifer o wahanol bobl.
- ▶ **Gweithio mewn partneriaeth:** Soniodd llawer o bobl am bwysigrwydd cael meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd effeithiol. Dywedwyd na ddylid caniatáu i neb adael yr ysbyty i mewn i ddigartrefedd, p'un ai a oedd y claf yn cael triniaeth am broblemau corfforol neu iechyd meddwl. Cododd nifer o bobl fater cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng ac o fewn sefydliadau. Roeddynt yn galw am i wasanaethau iechyd gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda darparwyr tai a chymorth, a gwnaed sylw ar yr angen i faes tai gael ei drin gan faes iechyd fel 'partneriaid cyfartal'. Galwodd pobl hefyd ar y ragor o feddygon a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i gyfeirio'n weithredol at wasanaethau tai, gan amlygu effaith digartrefedd ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl.

Gwell cefnogaeth iechyd meddwl.

Mwy o hyfforddiant i staff y GIG ar gyffuriau, alcohol, iechyd meddwl.

Mae'r cyfnod pontio o blentyndod i fod yn oedolyn yn dal i fod yn broblem anferth. Mae popeth yn stopio.

Blaenoriaethu gwasanaethau i bobl ddigartref.

Mynediad cyflymach i driniaeth: methadone, subutex.

Lleoliadau diogel i gyfnewid nodwyddau / chwistrellu. affach i bawb.

Mae pobl ifanc ag angen mwy o help gyda'u hiechyd meddwl.

Deintyddion yn tynnu pobl oddi ar eu rhestrau os ydyn nhw'n colli apwyntiad neu ddau.

Gwell cynllunio ar gyfer cleifion iechyd meddwl; mae pobl yn cael eu gadael allan heb unman i fynd.

Lleihau amserau aros am gymorth iechyd meddwl. 6-10 wythnos o aros am gymorth - mae'n jôc.

Lleihau'r stigma "nhw a ni".

Darparu unedau lle gall y digartref gael cawod / golchi a sychu dillad / glanweithdra.

Gwell cyfathrebu gyda phob gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Methu cael apwyntiad i gael atgyfeiriad i CMHT.

Angen teithio am 30 munud neu fwy ar gyfer apwyntiad CMHT.

Dim ID na llun i gofrestru gyda meddyg teulu.

Mynediad at wasanaethau. £58 yr wythnos i fyw arno. Sut gallwch chi dalu am deithio?

Allai iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol gydweithio'n well?

Mwy o arian ar gyfer nodwyddau glân, naloxone a'r hyfforddiant sydd ei angen ar elusennau.

Mae pobl yn teimlo, os nad ydyn nhw'n dda am gyfathrebu, na fydd neb yn gwrandao arny'n nhw.

Mwy o'r GIG i helpu i ddelio â phroblemau iechyd y digartref.

Os na fydd gan bobl gymorth, mae'n bosib na fyddan nhw'n ymgysylltu â gwasanaethau iechyd.

Mwy o grwpiau / sefydliadau ar gyfer iechyd meddwl a dibyniaeth.

Gweld yr un meddyg teulu (gwybodaeth, hanes, cyfrinachedd). Y meddyg teulu'n bod yn ymwybodol o wrando mewn ffordd weithredol.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau o'r gwasanaethau cymdeithasol, a'u barn ar beth ddylid ei wneud i rwystro a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r negeseuon allweddol isod, ac ar y dudalen gyferbyn ceir detholiad o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Negeseuon allweddol

- ▶ **Mynediad gwell, mwy cyson:** Roedd nifer o bobl yn awyddus i weld gwell mynediad at wasanaethau cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol, yn enwedig yn achos pobl sy'n ddigartref a rhai sy'n cysgu allan. Galwodd pobl am i'r gwasanaethau cymdeithasol ymyrryd yn gynt pan fo pobl mewn trafferthion, i osgoi pethau rhag gwaethygu ac arwain at ddigartrefedd. Gofynnwyd hefyd am gyfnodau aros byrrach, a gallu treulio mwy o amser gyda'u gweithiwr cymdeithasol. Dywedwyd fod gan y gweithwyr cymdeithasol lwyth gwaith trwm, ac o ganlyniad nad oes ganddynt ddigon o amser i ddarparu cymorth o safon uchel, a chafwyd galwad am recriwtio rhagor o weithwyr cymdeithasol. Lleisiodd pobl eu rhwystredigaeth hefyd am y ffaith fod y gweithwyr cymdeithasol yn newid yn aml, a bod raid iddynt ailadrodd eu profiadau dro ar ôl tro wrth berson newydd.
- ▶ **Mwy o dosturi a llai o farnu:** Soniodd llawer o bobl am y teimlad eu bod yn cael eu barnu gan y gwasanaethau cymdeithasol. Yn benodol, codwyd pryderon nad oedd pobl ifanc yn cael gwrandawriad teg nac yn cael eu cymryd o ddifri, gan arwain weithiau at ddiffyg gweithredu. Byddai pobl yn hoffi gweld y gwasanaethau yn fwy agos-atoch, ac yn llai beirniadol, ac awgrymwyd y byddai rhagor o hyfforddiant, yn enwedig 'o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth' yn help i gyflawni hyn.
- ▶ **Cymorth yn ystod cyfnodau pontio:** Soniodd nifer fawr o bobl am yr heriau o bontio o blentyndod i fod yn oedolyn, gan gyfeirio at y gostyngiad mewn cymorth ar ôl troi'n 18 neu 21 oed. Galwyd am i'r gwasanaethau baratoi pobl ifanc ar gyfer bod yn oedolion ar oedran llawer iau, ac i gyfathrebu'n well y dewisiadau oedd ar gael iddynt. Soniodd rhai am y profiad o symud o gartref plant i denantiaeth annibynnol fel profiad 'dychrynlyd' a 'dieithr', gan alw am fwy o gymorth i leddfu eu hofnau a'u cefnogi drwy gydol y symudiad hwn. Soniodd eraill am y pontio rhwng tai â chymorth a charchar, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o gymorth yn ystod y cyfnod yma.
- ▶ **Cymorth i rieni a theuluoedd:** Galwodd llawer o bobl am fwy o gymorth i rieni a theuluoedd, yn cynnwys darparu rhagor o unedau mamau a babanod, rhagor o gynlluniau llety ar gyfer rhieni sengl a merched beichiog, a mwy o gymorth i dadau sengl. Dywedodd rhai pobl y dylai bod mwy o gymorth ar gael i helpu pobl ifanc i fod yn rhieni llwyddiannus, a chadw gwarchodaeth o'u plant, yn enwedig os oes ganddynt broblemau iechyd meddwl. Tynnodd eraill sylw at yr angen i ddarparu llety addas i'r digartref a chymorth sy'n help i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Galwodd rhai hefyd am fwy o ofal plant sy'n hygyrch a hyblyg fel bod modd iddynt gael mynediad at waith y tu allan i'r oriau traddodiadol rhwng 9 a 5, a thrwy hynny allu fforddio a chynnal eu tenantiaeth.
- ▶ **Dulliau a phartneriaethau traws-sector:** Roedd pobl yn awyddus i weld gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yn cydweithio, gan alw am well dulliau o rannu gwybodaeth a mwy o gyfathrebu rhwng gweithwyr cymdeithasol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Galwyd hefyd am i'r gwasanaethau cymdeithasol drafod opsiynau tai gyda phobl ifanc, ac am fwy o gymorth y gwasanaethau cymdeithasol i bobl mewn tai â chymorth. Awgrymwyd gan eraill y dylid cael rhagor o weithwyr cymdeithasol a chanddynt arbenigedd mewn materion yn ymwneud â digartrefedd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae llwyth gwaith y gweithwyr cymdeithasol yn rhy drwm.

Gweithio gyda'n gilydd ydy'r allwedd!!!

Mae pobl yn dweud "beth yw'r pwynt?" wrth gael gweithiwr cymdeithasol arall eto fyth, a gorfod ailadrodd popeth unwaith yn rhagor.

Mynediad haws at weithiwr cymdeithasol, yn enwedig yn achos rhai sy'n cysgu allan.

Mwy o gymorth ar ôl cyrraedd 18 oed.

Mwy o ofal plant sy'n hygyrch a fforddiadwy i rieni; rhaid iddo fod yn hyblyg fel bod pobl yn gallu gweithio y tu allan i'r oriau arferol 9-5.

Ymyrraeth yn gynt ar gyfer pobl sy'n cael trafferthion.

Mae llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol yn rhy drwm ac oherwydd hynny maen nhw'n methu rhoi'r cymorth gorau. Does ganddyn nhw ddim digon o amser.

Mwy o leoliadau maeth sy'n gyson, yn hytrach na bod plant yn cael eu pasio o gwmpas am eu bod yn ddrygionus neu'n drwblus.

Cymorth dilynol pan yn dod allan o ofal / o'r carchar.

Gorfod ailadrodd gwybodaeth DRO AR ÔL TRO wrth wahanol bobl ac ar ffurflenni gwahanol.

Gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc fod yn rhieni gwell.

Dechrau eich paratoi chi o oedran iau a rhoi opsiynau i chi ar y cam nesaf.

Mwy o draws-gyfathrebu rhwng adrannau o'r gwasanaethau cymdeithasol.

Arbenigeddau megis: gweithwyr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn digartrefedd, cam-ddefnyddio sylweddau, ac iechyd meddwl.

Pan mae plant yn riportio cam-drin domestig, cam-drin neu esgeulustod – Gwrandwch!

Deall effaith mynd o gartref plant i denantiaeth annibynnol - mae'n brofiad dychrynlyd a dieithr iawn.

Sefydlu unedau arbennig i helpu teuluoedd un rhiant / mamau beichiog a theuluoedd sy'n cael trafferthion.

Mwy o unedau mamau a babanod, llai o farnu, ac agwedd fwy agored tuag at sefyllfaedd pobl.

Trafod opsiynau tai a chadw pobl ifanc yn y pictiwr i leihau pryder.

Mwy agos-atoch. Llai o ofni gwasanaethau.

Cymorth ar gyfer tadau sengl.

Pobl ifanc yn dioddef gwahaniaethu, ddim yn cael eu cymryd o ddifri, a dim byd yn digwydd.

Dim digon o weithwyr cymdeithasol.

Addysg a Sgiliau

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau o fyd addysg, yn ogystal â beth ddylid ei wneud i rwystro a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r negeseuon allweddol isod, ac ar y dudalen gyferbyn ceir detholiad o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Negeseuon allweddol

- ▶ **Cymorth i ddatblygu sgiliau bywyd:** Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ystod y drafodaeth hon yn gysylltiedig â'r angen am i bobl ifanc gael cyfle i ddysgu 'sgiliau bywyd' yn yr ysgol neu'r coleg. Soniodd pobl yn benodol am gael eu dysgu sut i reoli eu harian/cyllideb, sgiliau coginio, rheoli tenantiaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Roeddynt hefyd o'r farn y byddai'n beth da i gael gwell dealltwriaeth o realiti cost ac argaeledd tai, yn ogystal â gwybodaeth am asiantaethau eiriolaeth, elusennau a gwasanaethau cymorth yn eu hardal leol. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei godi'n aml yn ystod digwyddiadau ymgysylltu 'Arbenigwyr trwy Brofiad' mewn blynyddoedd a fu, yn enwedig gan bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd.
- ▶ **Cymorth ariannol:** Soniodd pobl am bwysigrwydd y Lwfans Cynnal a Chadw Addysg (EMA), cinio ysgol am ddim, a chludiant am ddim, gan y byddai hyn fel arall yn cyfrannu at roi mwy o bwysau ariannol ar y teulu. Fodd bynnag, galwodd rhai pobl hefyd am newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol i alluogi pobl hŷn i gael mynediad at addysg heb golli eu hawl i fudd-dal.
- ▶ **Sgiliau byd gwaith ac ymarferol:** Soniodd nifer o bobl am bwysigrwydd darparu cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau neu gynlluniau hyfforddi eraill ym myd gwaith. Galwyd am gynlluniau i hyrwyddo llwybrau addysgol gwahanol, yn hytrach na ffocysu'n unig ar gymwysterau addysgol. Roedd pobl yn awyddus i weld pobl ifanc yn dysgu pynciau mwy ymarferol a chrefftau, yn cynnwys sgiliau adeiladu. Roeddynt yn sylweddoli y gallai cymwysterau a gwaith atal digartrefedd, ond hoffent weld mwy o gyfleoedd i bobl nad oedd y pynciau academaidd yn apelio atynt. Soniodd pobl hefyd am yr angen i ddarparu cymorth a chyfleoedd dysgu mewn sgiliau sylfaenol a chynhwysiant digidol i oedolion oedd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau yn y meysydd hyn.
- ▶ **Addysgu rhieni ac athrawon:** Tynnodd nifer o bobl sylw at yr angen i sicrhau bod athrawon a staff addysgu eraill yn deall y problemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd, a'u bod yn gallu rhoi'r cymorth priodol i bobl ifanc oedd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod. Roedd pobl yn awyddus i wybod y byddai rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi drwy unrhyw anawsterau fel bod modd iddynt gyrraedd eu potensial yn yr ysgol a'r coleg. Soniodd eraill am yr angen i addysgu rhieni, yn enwedig am iechyd plant, iechyd meddwl a materion LGBTQ+, i hyrwyddo dealltwriaeth a rhwystro chwalu teuluoedd a digartrefedd ymhlith pobl ifanc.
- ▶ **Dysgu o brofiad byw:** Tynnodd nifer o bobl sylw at y budd o gael pobl a chanddynt brofiad byw ynghlwm ag addysgu pobl ifanc am ddigartrefedd, iechyd meddwl a materion ynghylch defnyddio sylweddau. Galwodd un person am i ysgolion gael pobl oedd wedi bod yn ddigartref ar eu staff, a galwodd eraill am ragor o fentoriaid cyfoedion ifanc mewn ysgolion, ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.

- EMA
- Cinio am ddim
- Cludiant am ddim

Cynnwys canran o bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd ymhlith y staff.

Rhagor o fentoriaid ifanc mewn ysgolion, ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.

Pwysigrwydd dysgu am fyd arian yn yr ysgolion. Sgiliau rheoli tenantiaeth hefyd.

Help i oedolion gydag anghenion addysgol sylfaenol, a phethau fel cynhwysiant digidol / mynediad i'r rhyngwrwd.

Dylai fod mwy o wahanol lwybrau addysgol ar gael i bobl ifanc, yn hytrach na ffocysu ar y meysydd academaidd yn unig.

Mae plant dysleocsig ag angen mwy o gymorth.

Addysgu athrawon mewn colegau am ddigartrefedd, a chefnogi pobl ifanc sy'n cael trafferth i ymdopi.

Angen addysgu rhieni am anghenion plant, e.e. materion LGBT, i atal pobl ifanc rhag cael eu troi allan neu redeg i ffwrdd.

Dim cyllid ar gyfer cwnselwyr mewn ysgolion.

Mwy o help addysgol/opsiynau am yrfa ar gyfer cyn-droseddwyr a rhai nad yw'r byd academaidd yn apelio atyn nhw.

Mae Agored yn ddefnyddiol i'w gwneud. Help i fynd yn ôl i mewn i addysg trwy gael cymorth.

Gwybodaeth am asiantaethau eiriolaeth, elusennau, a gwasanaethau cymorth.

Darparu addysg hygyrch i bobl sy'n methu cael mynediad i goleg.

Sgiliau bywyd: arian (rheoli cyllideb), coginio, gofalu am anifeiliaid anwes, cyfrifoldebau.

Addysgu sut i reoli cyllideb, trin arian, byw'n annibynnol.

Gwersi gorfodol ar dai cymdeithasol, rheoli arian ac ati. Gwersi mewn sgiliau bywyd.

- TGAU mewn sgiliau bywyd
- Gwersi 'dod yn barod ar gyfer rhent', a chynhwysiant cymdeithasol, mewn ysgolion

Bues i'n galw am help sawl tro, ond doedd neb yn fy nghymryd o ddifri a methais gyrraedd fy mhotensial.

Rhagor o brentisiaethau ar gyfer dysgwyr.

Gadael i bobl sydd â phrofiadau byw personol i gymryd mwy o ran mewn ysgolion.

Ysbrydoli i Weithio. Mwy o gyllid i gwmnïau fel hyn i ddarparu addysg un-i-un.

Mae rhieni, yn enwedig rhieni newydd, ag angen addysg orfodol, yn enwedig ym meysydd iechyd plant, iechyd meddwl, gwahaniaethu, LGBTQ a mwy.

Mae pobl sy'n awyddus i gael addysg bellach yn methu cael mynediad i goleg am y bydden nhw'n colli eu budd-daliadau.

Cyfiawnder troseddol

Holwyd y cyfranogwyr am eu profiadau o'r system cyfiawnder troseddol, a'u barn ar beth ddylid ei wneud i rwystro a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn y dyfodol. Rhoddir crynodeb o'r negeseuon allweddol isod, ac ar y dudalen gyferbyn ceir detholiad o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr.

Negeseuon allweddol

- ▶ **Sicrhau tai cyn gadael y carchar:** Roedd y mwyafrif o'r sylwadau a gafwyd yn ystod y drafodaeth hon yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth tai a chymorth i bobl wrth iddynt adael y carchar. Galwodd nifer fawr o bobl am i dai gael eu sicrhau cyn i bobl gael eu rhyddhau, rhag iddynt fod yn ddigartref. Galwodd eraill am i dai â chymorth gael eu darparu, neu lety dros dro o leiaf, fel bod gan bobl do uwch eu pennau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod tai diogel, parhaol yn well na llety dros dro neu lety argyfwng. Awgrymwyd hefyd y gellid gosod swyddogion tai yr awdurdodau lleol o fewn tiriogaeth y carchar, fel eu bod yn deall statws tai pobl ac yn eu helpu i sicrhau tai cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.
- ▶ **Darparu cymorth wrth adael y carchar:** Tynnodd llawer o bobl sylw at bwysigrwydd parhau i ddarparu cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau. Roedd pobl yn gweld y risg o bobl yn aildroseddu ac yn dod yn ddigartref os nad oedd y cymorth priodol wedi'i roi ar waith, gan sôn am y pwysau i sicrhau tŷ, trefnu budd-daliadau, cael gafael ar feddyginiaeth a mynychu apwyntiadau gyda'r gwasanaeth prawf. Galwodd rhai hefyd am gynnydd yn y swm o arian a roddir i bobl wrth adael y carchar, gan wneud y sylw bod costau byw wedi codi ond nad oes unrhyw newid wedi bod yn y swm a dderbynnir. Galwodd eraill am fwy o arian ar gyfer dillad, ac am gael cyfleoedd gwaith ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, er mwyn torri'r cylch troseddu a digartrefedd.
- ▶ **Gwella sgiliau a llesiant yn y carchar:** Soniodd llawer o bobl am yr angen i wella sgiliau a llesiant pobl tra oeddynt yn y carchar. Galwyd am hyfforddiant a chymorth o ran rheoli iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau, yn ogystal â chysiau i ddatblygu hyder, hunan-barch a sgiliau cymdeithasol. Roedd galw hefyd am ddarparu rhagor o gymorth cyfoedion i bobl tra oeddynt yn y carchar. Soniodd eraill am y budd a gaed o ddysgu sut i reoli eu harian a 'dod yn barod ar gyfer rhent' cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar er mwyn cynyddu eu siawns o gynnal llety a lleihau'r posibilrwydd o aildroseddu. Soniodd pobl hefyd am gyfle i gael mynediad at addysg a help i gael gyrfa, yn enwedig yn achos y rhai oedd yn llai hyderus yn academiaidd.
- ▶ **Atal troseddu:** Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i sut i atal pobl rhag ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan gydnabod y gallai hyn arwain at ddigartrefedd. Dywedwyd fod angen rhagor o glybiau ieuencid i atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, ac awgrymwyd y dylid gwneud mwy o waith atal mewn ysgolion. Galwodd pobl am i'r gwasanaethau prawf ddangos mwy o drugaredd pan oedd pobl yn colli apwyntiadau oherwydd eu bod yn ddigartref. Dywedwyd hefyd na ddylid trin pobl ddigartref ar y stryd fel troseddwr, gan yn hytrach eu cyfeirio at wasanaethau cymorth. Gwnaed y sylw hefyd fod digartrefedd yn gallu arwain at ryngweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol – a sut y gallai cael cartref atal hyn.
- ▶ **Cymorth sy'n dosturiol a pherson-ganolog:** Roedd nifer fawr o bobl yn cydnabod bod bywyd wedi bod yn anodd i lawer yn y system cyfiawnder troseddol, a galwyd am ddangos mwy o empathi a chymorth i bobl sydd efallai wedi cael eu sefydliadolli. Galwyd am ostyngiad yn y gwahaniaethu a wynebwr gan bobl sy'n gadael y carchar, yn enwedig yng nghyswllt cael mynediad at dai. Awgrymodd pobl hefyd y dylai gweithwyr proffesiynol yn y system cyfiawnder troseddol dderbyn mwy o addysg a hyfforddiant ar faes iechyd meddwl, a sut orau i gefnogi pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd gweithio mewn dull holistaidd, yn hytrach nag ar wahân.

Mae gormod o bwysau i gadw apwyntiadau gyda'r gwasanaeth prawf ar yr un diwrnod ag mae tai a meddyginiaeth yn flaenoriaeth i ni.

Mynediad uniongyrchol at gyllid ar gyfer tai i rai sy'n gadael y carchar i arbed defnyddio hosteli, cyffuriau ac ati.

Parhad o'r cymorth i bobl cyn gynted ag maen nhw'n gadael y carchar.

Mae angen mwy o glybiau ieuentid i osgoi troseddu ymhlith pobl ifanc.

Dylai carchardai ddysgu hyder, hunan-barch a sgiliau cymdeithasol.

Mae llawer o bobl yn cael eu cyflwyno i gyffuriau am y tro cyntaf pan maen nhw'n mynd i'r carchar.

Hyfforddiant ar iechyd meddwl, anhwylderau cyddigwyddiadol a chamddefnyddio sylweddau.

Mae gormod o wahaniaethu yn erbyn cyn-droseddwyr pan yn ceisio cael mynediad i dai.

Does dim help ar gael pan wrth adael y carchar. Ry'ch chi'n derbyn grant rhyddhau ac yn cael eich arwain at y gât. Mae'n aml yn arwain at aildroseddu.

Dyw Cymdeithasau Tai ond yn cadw tenantiaethau am 6 mis. Os ydych yn y carchar am fwy na hynny, fe fyddwch yn ddigartref.

Mae pobl yn cael eu cosbi / torri rheolau'r gwasanaeth prawf pan maen nhw'n ddigartref ar y stryd ac yn colli apwyntiad.

Peidio troseddoli'r digartref ar y stryd, ond eu harwain at gymorth.

Dod o hyd i dŷ cyn rhyddhau o'r carchar, a threfnu cymorth o flaen llaw.

Dylid trefnu bod swyddogion tai ar gael yn y carchardai cyn i bobl gael eu rhyddhau.

Angen mwy o help pan mae pobl yn symud i mewn o'r carchar / trin rhai sy'n gadael y carchar yn fwy gofalus.

Swyddi ar gael cyn gynted â phosib cyn gynted ag yr ewch chi drwy gatiau'r carchar.

NI ddylid caniatáu i bobl gael eu rhyddhau i fod yn "ddigartref ar y stryd".

Cwrs ar gynhwysiant a bod yn 'barod i rentu' ar gael i rai yn y carchar.

Trefnu llety dros dro arbennig i bontio'r cyfnod rhwng cael eu rhyddhau o'r carchar i gael tŷ.

Mwy o arian o'r grant rhyddhau - mae'n £46 ers oesoedd, ac mae costau byw wedi codi gymaint.

Dim digon o gyfathrebu rhwng y gwasanaeth prawf a'r cleient.

Mentoriaid cyfoed yn y carchar.

Mwy o gymorth addysgol ac opsiynau gyrfaol ar gyfer cyn-droseddwyr a'r rhai heb ddiddordeb yn y maes academaidd.

Wrth gael eu rhyddhau o'r carchar, dylid ailsefydlu byw â chymorth.

Grwpiau sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

Mae'r Grŵp Gweithredu Digartrefedd wedi rhoi ystyriaeth i wahanol fathau o weithgareddau atal, yn cynnwys dulliau atal wedi'u targedu, a nodwyd nifer o grwpiau sydd mewn perygl neilltuoel o fod yn ddigartref. Gofynnwyd i gyfranogwyr yn y digwyddiadau ymgysylltu ystyried sut y gallen ni atal digartrefedd yn achos y grwpiau hyn.

Pobl ifanc

- ★ Mwy o gefnogaeth gyda iechyd meddwl
- ★ Dewisiadau o dai fforddiadwy
- ★ Gwasanaethau cyfryngu ar gyfer teuluoedd
- ★ Cymorth gyda thenantiaeth a llety â chymorth
- ★ Addysgu sgiliau bywyd, rheoli cyllideb, rheoli straen
- ★ Ei gwneud yn haws i weithio pan yn byw mewn llety â chymorth
- ★ Mwy o arian, budd-dal tai a chyfleoedd am hyfforddiant
- ★ Prentisiaethau sy'n talu'r cyflog byw

Ap ar gyfer y genhedlaeth iau i'w helpu gyda digartrefedd.

Addysgu sgiliau bywyd a rheoli straen yn yr ysgolion.

Pobl LGBTQ+

- ★ Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl
- ★ Llai o wahaniaethu
- ★ Grwpiau sgwrsio ar y we, grwpiau cymorth
- ★ Addysgu athrawon a darparu cymorth mewn ysgolion
- ★ Cymorth ar gyfer pobl LGBTQ+ sy'n dioddef cam-drin domestig
- ★ Addysgu rhieni am faterion LGBTQ+ a darparu cymorth i deuluoedd

Addysgu rhieni. Eu dysgu i barchu eu plant LGBTQ+.

Llefydd i deuluoedd fynd am addysg a chymorth.

Pobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal

- ★ Galluogi pobl i aros mewn gofal am gyfnod hirach
- ★ Cynllunio'n ddigon pell ymlaen yn achos pobl sy'n gadael gofal
- ★ Cynnal y cymorth ar ôl i bobl symud ymlaen
- ★ Mwy o gwrsela a chymorth cymdeithasol
- ★ Addysgu pobl ifanc am sgiliau bywyd ymarferol a sut i gadw'n ddiogel

Mwy o gynllunio ar gyfer y dyfodol a symud ymlaen i eiddo â chymorth.

Pobl sy'n gadael y carchar

- ★ Cael swyddogion tai yn y carchardai, a rhoi blaenoriaeth i anghenion rhai sy'n gadael y carchar
- ★ Osgoi rhyddhau carcharorion ar ddydd Gwener, a rhoi mwy o arian iddynt wrth adael
- ★ Sicrhau tai diogel, cymorth a gwaith i bobl cyn iddynt adael y carchar
- ★ Cynnal eu tai yn ystod dedfryd am gyfnod byr
- ★ Sicrhau mynediad at bresgripsiwn wrth gael eu rhyddhau
- ★ Darparu cymorth yn ystod cyfnod y ddedfryd i ddatblygu sgiliau bywyd

Dylid datrys mater tai a chymorth cyn gadael y carchar.

Pobl sy'n gadael y lluoedd arfog

- ★ Darparu cymorth gydag integreiddio ac ailsefydlu
- ★ Darparu gofal dilynol pan fydd pobl yn dychwelyd adref
- ★ Cadw'r statws angen blaenoriaethol
- ★ Darparu cymorth a gwasanaethau gofal iechyd

Gofal dilynol ar gyfer cyn-filwyr sy'n dychwelyd adref.

Addysgu rhagor o weithwyr proffesiynol ynghylch ymgysylltu a cheiswyr lloches

Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

- ★ Rhoi ystyriaeth i iaith a gwahaniaethau diwylliannol / rhwystrau
- ★ Darparu cyfieithwyr
- ★ Gadael i geiswyr lloches weithio ac ennill arian
- ★ Addysgu mwy o weithwyr proffesiynol ynghylch y rhwystrau mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn eu hwynebu

Pobl sy'n dioddef trais neu gam-drin

- ★ Darparu llety arbenigol â chymorth
- ★ Darparu cwnsela ar gyfer goroeswyr
- ★ Rhoi cymorth i oroeswyr i adleoli
- ★ Mwy o gymorth i ddynion sy'n ddioddefwyr
- ★ Mwy o bwerau i roi terfyn ar ymddygiad 'cwcw'
- ★ Mwy o wasanaethau lleol fel bod pobl yn gallu aros yn yr ardal leol
- ★ Cynyddu ymwybyddiaeth o gymorth fel bod pobl yn gwybod sut i gael help
- ★ Sicrhau bod goroeswyr yn gallu aros yn eu cartrefi, a'r camdriniwr yn gorfod symud allan
- ★ Cyflenwi cyrsiau ar berthnasoedd iach, a mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad tramgwyddol

Peidio cael eu hystyried yn fwriadol ddiartref os ydynt yn ffoi o'u cartref.

Dydyn ni ddim am i bobl orfod aros cyn cael help, neu aros mewn sefyllfaoedd allai fod yn beryglus oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod am y gwasanaethau.

Pobl a chanddynt broblemau iechyd neu anableddau

- ★ Darparu Tai yn Gyntaf a llety â chymorth
- ★ Gwell systemau rhwydweithio
- ★ Mynediad ar unwaith at feddyg teulu i gael meddyginiaeth
- ★ Cymorth i ddelio gyda rhent, a sgiliau bywyd eraill
- ★ Rhestrau aros byrrach ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl
- ★ Mwy o gefnogaeth gan weithwyr cymdeithasol
- ★ Gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth allgymorth

Galw i mewn, dim gorfodaeth, help ar unwaith, dim gofynion.

Peidio â chlywed eu bod yn rhy gymhleth ar gyfer hosteli oherwydd amryw o gyflyrau.

Pobl a chanddynt broblemau gyda chyffuriau neu alcohol

- ★ Darparu Tai yn Gyntaf a llety â chymorth
- ★ Darparu ystafelloedd chwistrellu diogel
- ★ Darparu gwasanaethau allan-o-oriau
- ★ Cynyddu'r mynediad at wasanaeth cwnsela
- ★ Datblygu mwy o wybodaeth arbenigol o ddiagnosis deuol
- ★ Rhagor o ganolfannau dadwenwyno preswyl
- ★ Mynediad cyflymach at lwybrau triniaeth

Mae ystafelloedd saff i chwistrellu yn fwy diogel na chael cyffuriau ar y stryd.

Dyw hi ddim yn gweithio i eithrio pobl o wasanaethau oherwydd problemau cyffuriau ac alcohol.

Pobl sy'n cael profiad o berthynas yn chwalu

- ★ Darparu cwnsela a chymorth
- ★ Darparu gwasanaethau cyfryngu (lle bo'n briodol)
- ★ Darparu atebion tai a chyngor
- ★ Gwneud ysgariad yn rhatach
- ★ Darparu cyngor i bobl ifanc yn y teulu

Cyfryngu, cwnsela, cymorth, atebion tai.

Pobl sy'n cael trafferth i dalu rhent

- ★ Darparu cymorth ariannol mewn argyfwng
- ★ Trefnu bod budd-daliadau'n cael eu talu'n uniongyrchol i'r landlord
- ★ Defnyddio cyllid awdurdodau lleol i helpu landlordiaid i atal digartrefedd
- ★ Darparu cymorth tenantiaeth i helpu pobl i drin a rheoli eu harian

Mwy o gymorth i bobl sy'n cael trafferthion ariannol.

Pobl sy'n colli eu gwaith

- ★ Mwy o gymorth cyn gynted â phosib i alluogi pobl i gadw'u cartrefi
- ★ Taliadau Tai Dewisol
- ★ Atebion tai a cymorth ychwanegol mewn Canolfannau Gwaith
- ★ Lleihau'r amserau aros am Gredyd Cynhwysol
- ★ Cymorth i bobl nad ydyn nhw'n gyfarwydd â'r system lles
- ★ Darparu cyfleoedd i ail-hyfforddi

Dealltwriaeth gan DWP nad yw pobl efallai'n deall y system fudd-daliadau.

Awgrymiadau am grwpiau ychwanegol: Pobl sydd wedi dioddef profedigaeth, a phobl hŷn.

Stigma ac agweddau

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr rannu eu barn ynghylch sut y gallwn fynd i'r afael â stigma a newid agweddau tuag at ddigartrefedd. Clywsom ganddynt hefyd am y sylwadau sy'n cael eu gwneud gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am bobl sy'n ddigartref...

Negeseuon allweddol

- ▶ **Addysgu'r cyhoedd** drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ac ymgyrchoedd gwybodaeth er mwyn lleihau stigma. Gwella gwybodaeth pobl o ble a sut y gallant gael help os ydyn nhw, neu rywun maen nhw'n ei adnabod, mewn perygl o fod yn ddigartref.
- ▶ **Darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol** i sicrhau nad yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau cymorth yn y trydydd sector yn cael profiad o stigma a beirniadaeth a allai eu hatal rhag ymgysylltu â hwy yn y dyfodol. Cynnwys pobl a chanddynt brofiad byw i ddatblygu a darparu hyfforddiant i sicrhau ei fod yn ddilys.
- ▶ **Addysgu pobl ifanc mewn ysgolion** er mwyn iddynt ddatblygu tosturi ac ymwybyddiaeth yn gynnar yn eu bywydau.
- ▶ **Addysgu cyflogwyr** a chwalu rhwystrau at waith ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddigartref.
- ▶ **Herio'r cyfryngau** i'w rhwystro rhag atgyfnerthu stereoteipiau di-fudd a gwahaniaethu.
- ▶ **Rhannu straeon personol** er mwyn chwalu rhwystrau a newid agweddau pobl.
- ▶ **Penodi pobl a chanddynt brofiad byw** i'r gwasanaethau er mwyn lleihau stigma.

Peidiwch â rhoi diod iddyn nhw – fe fyddan nhw'n ei daflu'n ôl atoch chi.

Mae pawb sy'n ddigartref yn cymryd cyffuriau.

Peidiwch â bod yn rhy garedig – fe fyddan nhw'n disgwyl gormod.

Diog, annysgedig, twp.

Dwyt ti ddim yn edrych yn ddigartref!

Mae angen i weithwyr proffesiynol wrando mwy ar ddefnyddwyr gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth gywir.

Newid agweddau rhieni/gofalwyr. Eu haddysgu nhw a'u dysgu i basio'r wybodaeth ymlaen i'w plant.

Fel rhan o gyrsiau sefydlu, cael aelodau o'r staff i weithio gyda phobl fregus.

Addysgu cyflogwyr. Mae ymchwil yn dangos bod pobl fu unwaith yn ddigartref yn fwy cynhyrchiol ac yn cymryd llai o amser i ffwrdd o'r gwaith.

Mwy o addysgu am ddigartrefedd mewn ysgolion a cholegau.

Mae'n eich stopio rhag gwneud yr hyn mae angen i chi wneud rhag ofn cael eich beirniadu. Mae'n effeithio eich hyder – falle na fyddwch yn ymgysylltu â gwasanaethau.

Mwy o addysgu am ddigartrefedd. Mae pobl yn cymryd yn ganiataol ei fod yn golygu cysgu allan.

Agweddau ysgolion a cholegau. Mae angen iddyn nhw ofalu'n well am eu myfyrwyr digartref.

Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth – bywyd rhywun o'u plentynod i ddangos sut gall problemau effeithio pobl, a dyw e ddim wastad ynghylch bai.

Herio stigma trwy rannu straeon personol. HEFYD dylai gwasanaethau gyflogi pobl sydd â phrofiad byw.

Dydy rhagfarn a barn ddim yn newid dros nos, mae'n golygu amgylchoedd pobl, yr amgylchedd, cyfoedion, addysg, barn, profiad, y cyfryngau.

Brwydro yn erbyn stigma iechyd meddwl, digartrefedd. Mae pobl o bob cefndir yn cael yr un broblem.

Diolch yn
fawr i bawb a
gyfrannodd eu
sylwadau a'u
profiadau. 😊



cymorthcymru.org.uk



[CymorthCymru](https://twitter.com/CymorthCymru)



enquiries@cymorthcymru.org.uk